# Cyngor Cymuned Glantwymyn

**Nôs Iau, 30ain Hydref 2014.**

**Presennol.** Cynghorwyr**:-** Dafydd Evans, A. O. Griffiths, Siôn Ifans, H.D.Jones, J.P.Jones, D. Lewis, S.G.Owen, W.N.Owen, G.Wigley, Gwen Lloyd, Ann Williams, Gwenfair Davies a'r Cynghorydd Sirol G.P.Fychan.

**Ymddiheuriadau.** Cynghorwyr:- D.G.Jones, Tom Thomas a H.M.Williams.

Mae'r Cynghorydd Tom Thomas, Swn y Nant wedi penderfynnu ymddeol o'r Cyngor wedi treulio dros 50 mlynedd yn cynrychioli ward Darowen ar Gyngor Plwyf Darowen hyd 1987 ac wedi hynny ar Gyngor Cymuned Glantwymyn. Roedd yr aelodau'n drist o glywed am ei benderfyniad, ond ar yr un pryd yn ddiolchgar iddo am ei wasanaeth ffyddlon a'i gyfraniad helaeth i'r ardal ers 1964, ac yn dymuno'n dda iddo ef a'i briod i'r dyfodol.
Bydd y broses o ddewis olynydd i Tom yn dechrau rhagblaen.

**43. Cofnodion cyfarfod 25ain Medi 2014.**
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod uchod a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**44. Materion yn codi o'r cofnodion.**
19.17.1 Llythyr o Gyngor Tref Machynlleth yn obeithiol y bydd y Cyngor Sir yn ail ystyried y penderfyniad i gau safle Potters ym Machynlleth. Diolchwyd i'r Cynghorydd Fychan am ei ran yn yr ymgais i gadw'r safle'n agored.
25.10. Nid oes trefniadau wedi eu gwneud i gyfarfod efo swyddog o'r Cyngor Sir gan ei fod wedi bod ar wyliau. Cyflwynodd y clerc rai safleoedd iddo ymweld a hwy ac ychwanegwyd un arall.
41.1 Llanbrynmair yn cefnogi Gwenfair i gynrychioli'r cynghorau fel llywodraethwr ychwanegol ar y tair ysgol. Carno eto i benderfynnu.
41.3 Cafwyd adroddiadau i'r cyfarfod gynhaliwyd ym Mhantperthog, a darllenwyd llythyr oddi wrth Mr Richard Baker, y Swyddfa Gymreig a oedd hefyd yn bresennol yn y cyfarfod. Aros am y datblygiad diweddaraf.
42.5 Bydd yr ysgubwr yn ymweld a Chwm Ffrydlan yn fuan.
42.7 Derbyniwyd ateb i'r llythyr i Ms Prue Probert, Plas Wrin. Mae eisoes wedi gofyn am gyngor ynglyn â chyflwr y goeden.

**45. Cynllunio.**
**DECC2014 0019.** Cais Scottish Power i godi cebl uwchben y tir ger safle saethu, Brynmelin. Cefnogi
**P2014 1011.** Codi Melin Wynt ar dir Maesmedrisial, Penfforddlas**.** Cefnogi.

**46. Eitemau i'w talu.**
46.1 Rhoddwyd caniatad i dalu am y dorch ar gyfer Sul y Cadoediad.
46.2 Mae'n arferiad ym mis Hydref anfon cydnabyddiaeth i Wyn Evans, Cemaes am ofalu am y gofeb yng Nghemaes. £50.
46.3 Cyfraniad flynyddol i Ganolfan Glantwymyn. £1200.

**47. Cais am arian.**
47.1 Trosglwyddwyd tri chais i Gronfa'r Melinau Gwynt.

**48. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr.**
48.1 Nid oes digon o weithredu yn digwydd gyda Biosffer a disgwylir mwy o weithgaredd yn fuan i godi proffeil y gorfforaeth.
48.2 Mae cryn bryder ar hyn o bryd ynglyn â dyfodol Ysbyty Bronglais. Deallir fod Cyngor Tref Machynlleth yn bwriadu cynnal cyfarfod gyda chynrychiolwyr o'r Awdurdod Iechyd yn y Plas a bydd gwahoddiad i gynghorau lleol ymuno.
48.3 Bydd llywodraethwyr Ysgol Glantwymyn yn cyfarfod am y tro olaf cyn bo hir, yna bydd rhaid ethol llywodraethwyr newydd. Aled Griffiths fydd cynrychiolydd Cyngor Glantwymyn wedi'r newid.

**49. Gohebiaeth.**

49.1 Derbyniwyd y wybodaeth ddiweddaraf ynglyn â Swyddfa Bost Cwmlline.
49.2 Ar hyn o bryd mae'r gost o redeg y toiledau yng Nghemaes yn £6910. Mae'r Cynulliad yn gofalu amdanynt ond am ba hyd?
49.3 Adroddiad Russell George ar ddyfodol Ysbyty Bronglais
49.4 Gwahoddiad i Landrindod ar y 18fed Tachwedd gan Partneriaeth Adfywio Powys.
49.5 Gwahoddiad i ddatgan barn ar ddyfodol Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth Cymru.
49.6 Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Adroddiad Blynyddol i'w gael ar
http://wales.gov.uk/irpwsub/home/publication/201415/141002-draft-annual-report-2015-16/?lang=cy

**50. Unrhyw fater arall.**

50.1 Cynhelir seremoni'r cadoediad ger y gofeb yng Nghemaes ar 9fed Tachwedd. Cytunodd Hugh Jones i ofalu am y dorch eleni eto, a diolchwyd iddo. Yr arferiad yw i'r cadeirydd ei gosod ar y gofeb, a chytunodd Gareth Owen i wneud y ddyletswydd.
50.2 Beth yw'r diweddaraf am yr Anrheg?
50.3 Baw cŵn yn dal i fod yn broblem ar y Rhos yng Nghwmlline.
50.4 Angen clirio'r encilfa ger Dolcorsllwyn a gosod arwyddion ym mhob encilfa o'r gosb all ddeilliaw o daflu sbwriel yn angyfreithlon. Ydy'r cerbydau "Litter Control" yn dal i fodoli?
50.5 Mae gwter yn Rhos Awel, Cwmlline angen sylw.
50.6 Gwter wedi cau ger Angorfa, Llanwrin.

Nid oedd mater arall

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 27ain Tachwedd 2014.**